

CYMDEITHAS TŶ TAWE

ASESIAD RISG AR GYFER AILAGOR Y SIOP SIARAD YN NHŶ TAWE

Dilynir canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer agor Canolfannau Cymdeithasol: https://llyw.cymru/defnyddio-canolfannau-cymunedol-amlbwrpas-yn-ddiogel-covid-19?_ga=2.73080283.917315009.1598612841-1651477497.1480003616 a dilynir cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru wrth iddynt gael eu diweddaru. Gan fod Tŷ Tawe yn elusen, dilynir y cyfarwyddyd mai dyletswydd yr ymddiriedolwyr yw cynnal yr asesiad risg.

Mynedfa

Trwy'r siop, fesul un, yn ôl asesiad risg y siop a gymeradwywyd gan Gyfarwyddwyr Menter Iaith Abertawe (y ddogfen i'w gweld yn y siop). Gwahoddir mynychwyr i ddefnyddio'r diheintydd dwylo, yn y siop neu wrth y grisiau.

Allanfa

Bydd mynychwyr yn gadael trwy ddrws ochr yr adeilad.

Caniatáu mynediad

Gosodir arwydd i ofyn i fynychwyr sydd â symptomau Covid-19 i beidio â mynychu.

Cadw cofnod

Cedwir cofnod o enwau a rhif ffôn/e-bost mynychwyr fel bod modd eu defnyddio os bydd angen olrhain cysylltiadau.

Teflir y wybodaeth yma ar ôl mis.

Glendid

Caiff y byrddau a'r cadeiriau eu diheintio â chadachau / chwistrell a chadach diheintio cyn cychwyn.

Caiff y rhain eu diheintio yn yr un modd ar ôl pob ymwelydd.

Caiff y rhain eu diheintio yn yr un modd ar ddiwedd y sesiwn.

Gofod

Gosodir cadeiriau a byrddau ar wahân fel bod dau fetr rhwng pob ymwelydd.

Gall rhai o'r un teulu neu grŵp cyswllt eistedd gyda'i gilydd.

Caiff nifer uchaf y mynychwyr ar gyfer y lolfa a'r neuadd eu nodi ar arwydd ger drws y manau hyn.

Caiff cynllun o'r ystafelloedd hyn eu cadw yn y man gweini fel bod cysondeb o wythnos i wythnos.

Gweini

- Ni fydd y mynychwyr yn dod at y bar i weini. Caiff y gweini ei wneud gan y person sy'n gyfrifol am y sesiynau. Argymhellir bod y person yma'n gwisgo mwgwd.
- Defnyddir cwpanau ailgylchu un-defnydd, a deflir i fwced cymwys ar ôl eu defnyddio.
- Defnyddir ffyn pren yn hytrach na llwyau, yn unigol ar gyfer pob cwpan.
- Bydd hylif diheintio dwylo ar gael yn barhaus ger y man gweini.
- Bydd y gweinydd yn golchi dwylo'n drylwyr ar ddechrau a diwedd y sesiwn, ac yn ystod y sesiwn ar ôl gweini.
- Bydd y gweinydd yn defnyddio tegell a phot coffi i baratoi diodydd. Ni fydd neb arall yn cyffwrdd â'r rhain, a dyma'r unig eitemau i'w golchi'n drwyadl ar ddiwedd y sesiwn.
- Os yw mynychwyr yn dymuno, gallant roi arian mewn tun / potel a fydd yn cael ei gadw heb ei gyffwrdd am wythnos.

Mannau cyfyng

Y manau cyfyng sy'n llai na 2 fetr o led, lle nad oes modd pasio heb fod o fewn dau fetr, yw'r cyntedd, y rhodfa i'r lolfa, y grisiau, y cyntedd uchaf a'r fynedfa fer i'r neuadd. Gofynnir, trwy arwydd ger y manau hyn, bod mynychwyr yn aros cyn mynd i mewn iddynt os yw'n amlwg bod rhywun arall yn dod tuag atynt.

Awyru

Pan ddefnyddir y manau cymdeithasu, bydd ffenest neu ddrws ar agor fel bod awyr yn cael cylchredeg, er mwyn lleihau cyfnod erosolau yn yr awyr.

Tŷ Bach

Cedwir y tŷ bach ar agor, fel bod awyr yn cylchredeg.

Cedwir cofnod o ddiheintio'r tŷ bach yn gyson.

